Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 9 Tachwedd 2017 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Bu'r Cynghorydd L James (Is-gadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | O G James | M B Lewis |
| P Jones | J W Jones | L V Walton |
| S Pritchard | W G Thomas | |

**Hefyd yn bresennol: -**
Cynghorydd M H Jones — Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Cockings | Prif Archwiliwr |
| Tal Davies | Rheolwr Twyll Corfforaethol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol: -**
Geraint Norman — Swyddfa Archwilio Cymru

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): B Hopkins a/ac T M White
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Mr A M Thomas

---

**39 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**40 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio fel cofnod cywir, yn amodol ar y diwygiadau canlynol: -

Ychwanegu Geraint Norman a David Williams, Swyddfa Archwilio Cymru, at y rhestr o bobl a ddaeth.

**41 Adroddiad Blynyddol Craffu - Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu - Y Cynghorydd Mary Jones.**

Darparodd y Cynghorydd M H Jones, Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu, adroddiad am waith craffu ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-17 ac amlygodd weithgareddau craffu a gynllunnir ar gyfer 2017/18. Darparwyd yr adroddiad er mwyn rhannu gwybodaeth a fydd yn helpu i ddatblygu'r berthynas rhwng Craffu a'r Pwyllgor Archwilio.

Canmolodd waith Dave McKenna, y Rheolwr Craffu, a adawodd yr awdurdod ym mis Gorffennaf 2017, a gwaith y tîm craffu.

Tynnodd sylw at waith Craffu drwy gydol y flwyddyn, gan gyfeirio at y canlynol: -

- Y gwaith a wneir gan y tîm Craffu;
- Dangos sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth;
- Cefnogi gwelliant parhaus ar gyfer swyddogaeth Craffu;
- Dealltwriaeth staff o Graffu;
- Craffu Cyn Penderfynu a wnaed, yn enwedig mewn perthynas ag adolygu comisiynu ac ymgysylltu â'r cyhoedd;
- Yr angen am gyfathrebu ac ymgysylltu'n well.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i Gadeirydd Craffu, a ymatebodd yn briodol. Trafodwyd y materion canlynol: -

- Argymhellion Craffu a dderbyniwyd yn llawn neu'n rhannol;
- Y cwymp yn nifer y staff a gytunodd fod trefniadau Craffu'n gweithio'n dda;
- Cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru wrth fonitro adroddiadau Craffu;
- Colli staff profiadol a diffyg adnoddau ar gyfer Craffu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cadeirydd Craffu am ddarparu'r adroddiad.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**42 Hyfforddiant Gwrth-dwyll.**

Rhoddodd y Rheolwr Twyll Corfforaethol gyflwyniad manwl ac addysgiadol am wrth-dwyll. Roedd y manylion a ddarparwyd yn cynnwys: -

- Cyfrifoldeb corfforaethol - dyletswydd statudol;
- Cyfrifoldeb corfforaethol - dyletswydd gyfansoddiadol;
- Rheolau Gweithdrefnau Ariannol (RhGA)
  - RhGA 1 - Rôl a chwmpas RhGAu;
  - RhGA 2 - Camau gweithredu rhesymol, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, cydymffurfio;
  - RhGA 3 - Cyfrifoldebau rheoli ariannol;
  - RhGA 12 - Archwilio mewnol;
- Tîm Twyll Corfforaethol - cefndir, Strategaeth Mynd i'r Afael â Thwyll, cylch gwaith, amcanion, manylion cyswllt.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau mewn perthynas â'r cyflwyniad hyfforddi, yr oedd y swyddog wedi ymateb iddynt.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys y cyflwyniad hyfforddi.

## 43 Yr Ystadegau Diweddaraf - Cynigion Gwella Swyddfa Archwilio Cymru.

Darparodd Rheolwr Perfformiad a Chyflwyno adroddiad a roddodd drosolwg o statws ymateb Cyngor Abertawe i gynigion gwella a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu sicrwydd i'r pwyllgor am gynnydd. Darparodd Atodiad A gynigion ar gyfer gwella Swyddfa Archwilio Cymru: Adroddiad am y statws diweddaraf.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am y canlynol: -

- Gwella cynllunio busnes gwasanaethau;
- Sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer cyflwyno arbedion penodol yn realistig a gweithredu i hyrwyddo cyflwyniad;
- Sicrhau bod cyfrifoldeb dros gyflwyno arbedion arfaethedig yn cael ei glustnodi i wasanaethau rheolwyr penodol;
- Sicrhau bod cofnodion penderfyniadau dirprwyedig a wnaed gan y swyddogion yn cael eu cofnodi'n gywir.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 44 Trosolwg o Statws Risgiau Corfforaethol.

Darparodd Rheolwr Perfformiad a Chyflwyno adroddiad a gyflwynodd drosolwg o statws risgiau corfforaethol i ddarparu sicrwydd i'r pwyllgor am effeithiolrwydd y polisi a'r fframwaith rheoli risgiau a sut maent yn cael ei defnyddio yn y cyngor. Darparodd yr adroddiad giplun o Gofrestr Risgiau Corfforaethol y cyngor a dynnwyd ar 22/05/17 gyda chiplun arall a dynnwyd ar 03/10/17.

Ychwanegwyd bod adolygiad o risg a chofrestri risg y cyngor ar waith gan ddilyn cymeradwyo polisi a fframwaith risg newydd gan y Cabinet a chyhoeddiad Cynllun Corfforaethol 2017/22. O ganlyniad, byddai adroddiadau dilynol yn disgrifio statws risg ehangach a chyffredinol yn y cyngor. Byddai'r adroddiad nesaf yn cynnwys Chwarter 3 2017/18 a byddai'n ymddangos ym mhob chwarter ar ôl hynny.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Risgiau ariannol gan gynnwys diogelu, Abertawe Gynaliadwy a rheolaeth ariannol;
- Rheoli a monitro cyllid;
- Materion y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod a bod yn ymwybodol o risgiau;
- Asesu effaith yn erbyn risg;
- Enw da'r awdurdod a risg ariannol;
- Yr oedi wrth adolygu a mynediad aelodau i'r gofrestr risgiau.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 45 Adroddiad Diweddaraf Swyddfa Archwilio Cymru.

Cyflwynodd Geraint Norman, Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiad diweddaraf Swyddfa Archwilio Cymru - mis Tachwedd 2017.

Roedd y manylion a ddarparwyd yn cynnwys gwaith Archwilio Ariannol a Gwaith Archwilio'r Gronfa Pensiwn 2016-17 - Dinas a Sir Abertawe a gwaith Archwilio Perfformiad.

Roedd y pwyllgor wedi crybwyll y ffïoedd a dalwyd gan y Gronfa Bensiwn a gwneud sylwadau am flwyddyn gyntaf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 46 Cynllun Gweithredu Adolygiad Perfformiad y Pwyllgor Archwilio 2016/17 - Diweddariad.

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr adroddiad a ddarparodd y diweddaraf gan ddilyn Adolygiad Perfformiad y Pwyllgor Archwilio 2016/17. Darparwyd crynodeb yn Atodiad 1 o'r canfyddiadau allweddol a ddaeth o'r adolygiad perfformiad.

Roedd y cynnydd hyd at heddiw yn cynnwys: ychwanegu diweddariadau cyfnodol am reoli risgiau gan Reolwr Perfformiad Busnes at Gynllun Gwaith y pwyllgor; thoi hyfforddiant rheoli risgiau a throsolwg o'r Polisi a'r Fframwaith Rheoli Risgiau diweddaraf i'r pwyllgor; diweddariadau cyfnodol gan Reolwr Perfformiad Busnes am waith rheoleiddiwyr eraill ac olrhain argymhellion.

Er mwyn nodi arfer da, gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried awgrymiadau gwahanol. Trafodwyd y materion canlynol: -

- Aelodau yn arwain ar feysydd penodol, e.e. addysg, perfformiad a risg;
- Y posibilrwydd o aelodau yn mynd i gyfarfodydd Pwyllgorau Archwilio cyrff eraill;
- Derbyn adborth gan gyrff eraill am berfformiad y pwyllgor.

**Penderfynwyd**: -

1) Nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Cynnwys yr eitem ar agenda'r pwyllgor ym mis Rhagfyr.

**47 Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio. (Er Gwybodaeth)**

Darparwyd Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth.

Cododd y pwyllgor ymholiadau mewn perthynas â chefnogi caffael mewn ysgolion, caffael ysgolion mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a mabwysiadu ymagwedd fwy rhanbarthol at y broblem.

Nododd y Prif Archwiliwr y byddai'r Adolygiad Cymheiriaid yn dechrau ym mis Rhagfyr 2017 pan fydd Cyngor Caerdydd yn archwilio'r awdurdod.

**48 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio. (Er Gwybodaeth)**

Cyflwynwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.33 am

**Cadeirydd**